# Côr Merched y Garth

## 1977 - 2012

# DATHLU LLWYDDIANT

Nid yn aml mae'r Cymry yn brolio eu hunain ond mae hanes Côr Merched y Garth yn destun haeddiannol i'w adrodd a'i ddathlu.

Mae'r côr wedi ennill deg gwaith yn yr Eisteddfod Genedlaethol, pum gwaith yn yr Ŵyl Gerdd Dant ac wedi bod yn bencampwyr yr Ŵyl Ban-Geltaidd. Mae arweinyddion y côr wedi ennill dwy fedal - Medal Aur Clogau a Medal Noel John a gwahoddwyd y côr i fod yn rhan o ddathlu agor y Cynulliad Cenedlaethol.



**Parti Merched y Garth yn cystadlu yn Eisteddfod Caerdydd 1978.**

**Merched y Garth**

Mae'r ias ynom â'r seiniau - yn agor
Y neges mewn geiriau;
Swyn y gainc a'r gerdd sy'n gwau
Mewn në o harmonïau.

Rhys Dafis

**Cychwyn**

Does dim cofnod pendant o'r union ddyddiad y sefydlwyd y parti gan Meinir Heulyn, ond wrth fynd ati i chwilota sylweddolwyd ein bod wedi cystadlu yng Ngŵyl Gerdd Dant Talybont yn 1977 a'n bod wedi cynnal cyngerdd yn Nhreorci i ddathlu Gŵyl Ddewi yn 1978.

Wedi i Meinir ddysgu'r gosodiad ar gyfer y partïon (Eisteddfod Caerdydd 1978) sylweddolwyd fod mwy nag un ar bymtheg o aelodau'n dod i ymarfer felly cofrestrwyd dau barti, Merched y Garth a Merched Bro Taf. ( Un parti yn unig wnaeth gystadlu yn y pen draw, sef Merched y Garth).

# LLAWER I'W GOFIO

Cyfuniad yw'r llyfryn hwn o wybodaeth a baratowyd ar gyfer y dathlu yn y flwyddyn 2000 gyda thudalennau ychwangeol yn cofnodi'r teithiau, cyngherddau a chystadlu yn neuddeg mlynedd olaf y côr cyn ffarwelio yn 2012.

Gallwn ddathlu fod Côr Merched y Garth wedi gosod safon uchel dros ben ac wedi diddanu cynulleidfaoedd di-ri am gyfnod o 35 mlynedd.



**Cyngerdd Ffarwel 2012 yng Nghanolfan Garth Olwg**

# CYNGHERDDAU

Gymru difraw, daw y dydd
Y gweli dy gywilydd.
Ni all sŏn ennill senedd,
Ni ddaw fyth heb newydd fedd.
Ac am hynny, Gymru, gwêl
Y gŏr sydd ar y gorwel.

Bu'r côr yn brysur iawn yn y dyddiau cynnar yn cynnal cyngherddau ar hyd a lled De Ddwyrain Cymru. Fe fuon ni ym Mhenybont ar Ogwr, Casnewydd, Caerdydd, Llanbradach, Dinas Powys a Llantrisant yn diddanu Cymdeithasau Cymraeg. Fe wnaethon ni gynorthwyo Merched y Wawr Hirwaun, Y Creigiau a Phentre'r Eglwys i ddathlu Gŵyl Ddewi.

Buom droeon i Dreorci ac i ardal Caerffili. Roedd gennym gefnogwr brwd yn y diweddar, annwyl Mrs Lilly Richards, "Ardderchog : Ffantastig, ferched bach! Daliwch ati" oedd ei hanogaeth bob tro.

Cawsom y fraint o rannu llwyfan gydag Elinor Bennett yng Ngŵy1 Bro'r Preseli.

Daeth gwahoddiadau o dros y ffin i ni gynnal cyngherddau yn Llundain, Caerfaddon a Bryste. Braint oedd cael canu ar lwyfan Neuadd Dewi Sant yng Nghaerdydd yng Ngŵyl Telynau'r Byd 1991 ac adeg Eisteddfod yr Urdd yn Nhaf Elái. (Faint ohonoch sydd yn cofio'r cyflwyniad 'gwefreiddiol' o Ffinlandia ar ddiwedd y noson?)



**Llun ar gyfer Cyngerdd yr Urdd yn 1988**
**Tharian yr Wyl Gerdd Dant, Bro'r Bannau 1987 a Chwpan Eisteddfod Genedlaethol Casnewydd 1988.**



**Canu mewn Noson Lawen yn Llanwrtyd 1993.**

Roedd yn rhaid i ni fod ar ein gorau glas pan gawsom ein gwahodd i Lanerfyl ( cartref Alwena) i gynnal cyngerdd yn 1985.

Yn nechrau'r nawdegau aelodau Côr Merched y Garth oedd y gwesteion arbennig yng Nghyngerdd Blynyddol Bandiau Pres Tredegar. Bu'r côr hefyd yn canu yn yr Ŵyl Flodau yng Nglynebwy.

Mae'n debyg mae un o'r breintiau mwyaf a ddaeth i ran y côr oedd cael ein gwahodd i ganu yng Ngwasanaeth Agor y Cynulliad yn yr Eglwys Gadeiriol yn Llandaf. Bydd y wefr o fod yno'n canu yn aros yn y cof am byth ac yn benllanw cyfnod o ddeng mlynedd o arweinyddiaeth ysbrydoledig gan Menna.

Awn ymlaen gyda Llinos i gyfnod pellach o weithgaredd prysur, gobeithio. Mae'r hwyl a gawsom yn Abergwaun, Salem Canton ac yn Y Tabernacl ym Mhenybont ar Ogwr yn ddiweddar yn argoeli'n dda iawn i'r dyfodol.



**Y côr yng Ngwasanaeth Agor y Cynulliad yn Llandaf 1999.**

# AR GOF A CHADW

Eiddil Fimosoa drwy ddylif misoedd,
Hwyliai i'w hantur ar wamal wyntoedd,
Ei chragen yn herio'r llydan foroedd,
A rhoddwyd i'w llywio freuddwyd lluoedd;
Anelu o fro'r niwloedd - digariad,
A morio i wlad y mawr oludoedd.
R.B.W.

## TORRI RECORD

Ym Medi 1982 gwahoddodd Cwmni Sain y Côr i recordio detholiad o'r Awdl "Patagonia" gan R. Bryn Williams a Salm 84 i'w cynnwys ar Record Telyn Cymru 5.

Ym Mis Medi 1987 cyhoeddodd y Côr gaset. Alwena wrth gwrs oedd piau'r gosodiadau campus ac mi gyfrannodd Eirlys Gravelle yn helaeth i'r record gyda'i threfniadau celfydd o'r alawon gwerin. Roedd yn braf cael croesawu Meinir Heulyn yn ôl i gyfeilio ar y delyn.



**Llun o glawr y record, Telyn Cymru 5, 1982**

## TELEDU A RADIO

Wrth i'r Côr fynd o nerth i nerth gan ennill yn gyson yn Yr Eisteddfod Genedlaethol a'r Ŵyl Gerdd Dant cawsom wahoddiadau lu i ymddangos ar y teledu tua chanol yr wythdegau. Cawsom ein gwahodd i ganu gan Mair Carrington Roberts, gwestai ar un o raglenni Meredydd Evans yn y gyfres, "Canu Penillion". Ai dyma'r tro cyntaf i ni wisgo ein ffrogiau Berkertex glas a gwyn ?

Fe ymddangosodd y Côr ar "Rhaglen Hywel Gwynfryn" ac ar " Dechrau Canu, Dechrau Canmol" yn 1985 ac ar raglen "Trebor" yn 1986. Fe fuon ni'n cystadlu ar raglen Gareth Glynne, "Am y Corau" gan guro ein gwrthwynebwyr, Côr Blaenporth o Geredigion. A fu erioed y fath berfformiad o "Unwaith eto Nghymru annwyl"?

Ymddangosodd y Côr bob Nos Sul am fis ar gyfres Jenny Ogwen, "Cais am Gân". Cawsom daith hudolus i Ddyfed i'r Eglwys Gadeiriol yn Nhŷ Ddewi i gyfrannu i raglen "Nadolig y Beirdd". Ym Medi 1997 treuliwyd noson anghyfforddus iawn yn eistedd ar fyrnau gwair am oriau yn recordio eitemau ar gyfer y gyfres Noson Lawen. Cyfrannodd y Côr ddwy waith i "Oedfa'r Bore"o'r Tabernacl, Efail Isaf.

Profiad hynod oedd ceisio canu Cerdd Dant byrfyfyr ar raglen Alwyn Samuel, "Alaw ac Anian".

## SAIN Y MERCHED

Un o brif rinweddau Merched y Garth yw eu dawn i gyflwyno'r geiriau yn deimladwy ac yn gerddorol gyda sain melfedaidd clos a chynnil.

Mae cerdd dant yn gyfrwng arbennig i ddehongli ein stôr amhrisiadwy o farddoniaeth ac mae'r Merched wedi llwyddo i gyfleu y gorau o'n treftadaeth. Daeth triniaeth y Merched o waith ein beirdd a'n hemynwyr â ias i lawr asgwrn cefn droeon ac mae'r asiad o alawon a chyfalawon wedi eu plethu yn gelfydd ac yn soniarus i'r glust wedi ychwanegu at gyflwyniadau arbennig.

Rhown glod iddynt am eu cyfraniad yn sicrhau rhan bwysig o'n treftadaeth unigryw ac am roi cyfle i bobl yr ardal hon, Cymru gyfan a thramor glywed Cerdd Dant ar ei orau.

**Telynorion**

Meinir Heulyn
Alwena Roberts
Bethan Roberts
Eirian Dyfri
Lowri Ffrancon
Kathryn Thomas
Kathryn Rees



**Dwy o delynorion y côr -**
**Lowri Ffrancon a Bethan Roberts**

# GWOBRAU LU

**Bu'r Côr yn cystadlu'n gyson ar hyd y blynyddoedd.**
**Bu'r llwyddiant a gafwyd yn ysgubol!**

Pan ddelo'r adar i gynnar ganu
Eu halaw dirion i'm hail hyderu,
A phan ddaw amser i'r hin dyneru,
I braidd eni ŵyn, i briddyn wynnu,
Af innau i gyfannu - cylch y rhod,
Yn ôl i osod a'r ddol yn glasu.
D.J.

## Yr Eisteddfod Genedlaethol

1981 Gwobr gyntaf ym Machynlleth
1982 Gwobr gyntaf yn Abertawe
1983 Trydedd wobr yn Llangefni
1984 Trydedd wobr yn Llanbedr Pont Steffan yn cystadlu ar y Cyflwyniad Llafar ( Carol Hardy yn ein hyfforddi)
1986 Gwobr gyntaf yn Abergwaun. (Alwena'n derbyn Medal Aur Clogau)
1988 Gwobr gyntaf yng Nghasnewydd.
1989 Gwobr gyntaf yn Nyffryn Conwy. ( Menna'n hyfforddi am y tro cyntaf)
1990 Ail wobr yng Nghwm Rhymni. ( Cystadlu yng nghystadleuaeth y Côr Gwerin).
1992 Gwobr gyntaf yn Aberystwyth
1993 Gwobr gyntaf yn Llanelwedd
1994 Gwobr gyntaf yng Nghastell Nedd "Roedd profiad ac aeddfedrwydd Côr Merched y Garth wedi gwthio nhw rhyw fymryn bach o flaen y lleill i'r safle buddugol," Alwyn Samuel.
1996 Ai1 wobr yn Llandeilo. "Diolch i'm cyd-feirniaid er nad oeddwn i'n cytuno â nhw. Ond maen nhw'n ddwy un ydw i!" Gaynor Hall.
1998 Gwobr gyntaf ym Mhenybont ar Ogwr. ( Menna'n derbyn Gwobr Goffa Noel John.)
2004 Gwbor gyntaf yng Nghasnewydd



**Eisteddfod Cwm Rhymni 1990**

"Lleisiau ifanc rhagorol a chafwyd unoliaeth lleisiol hyfryd. Ymdriniaeth wych o'r awdl. Diweddglo gorfoleddus i'r garol."
Mair Carrington Roberts.
Abertawe 1982.

"Y côr a roddodd inni'r diweddglo mwyaf erotig oedd Merched y Garth gyda'i "Hai" anadlog, llesmeirol, orgasmaidd oedd yn ddiweddglo mor addas i'r geiriau "artistri felfed ei chusan yn dawnsio'n wyllt trwy ei waed!"
Hafina Clwyd yn y Western Mail ar ôl Gwyl Gerdd Dant, Aberystwyth 1997.

"Cawsom wefr o wrando ar eich datganiadau a'r ddau ddarn yn ein llwyr argyhoeddi."
Menai Williams.
Bro Ogwr 1998

## Yr Ŵyl Gerdd Dant

1985 Gwobr gyntaf yn Nyffryn Lliw
1987 Gwobr gyntaf ym Mro'r Bannau " Lleisiau gwych! Roedd y geiriau ar hyd y ffordd yn pefrio! Eu haeddfedrwydd yn hollol amlwg," Trefor Edwards.
1988 Gwobr gyntaf ym Mhwllheli .
1991 Trydedd wobr yn Y Barri.
1992 Trydedd wobr yn Y Rhyl.
1993 Ail wobr yn Hen-dy-gwyn-ar-daf " Lleisiau hynod o gyfoethog! Canu grymus." Glesni Jones.
1995 Gwobr gyntaf ym Mhenybont-ar-Ogwr "Lleisiau rhagorol ac ni chollwyd UN cyfle i fynd o dan groen y geiriau. Y datganiad o'r emyn yn llawn angerdd," Alwena Roberts.
1996 Gwobr gyntaf yng Nghaernarfon. "Dehongliad sensitif a lleisio campus. Gosod hyfryd a'r cyfan oll wedi ei saernïo yn ofalus."
Aled Lloyd Davies.

Gwyl Gorawl Corwen 1989 - Dyfarnwyd yr ail wobr i'r côr. "Lleisiau cyfoethog dros ben. Yn gwbwl gerddorol yn eu hymdriniaeth o'r cyfalawon a rheiny bob amser yn wych! Canu'n rhwydd a diymdrech. Menai Williams ac Aled Lloyd Davies.

# ARWEINYDDION

Mawrygwn di o Dduw,
Am bob celfyddyd gain,
Am harddwch ffurf a llun
Am bob melyster sain,
Ti'r hwn sy'n puro ein dyheu
Bendithia gamp y rhai sy'n creu.
W. RH. N.

## Pedair Arweinyddes Merched y Garth a chymwynaswyr eraill!

A fu côr erioed mor ffodus yn ei arweinyddion? I ddechrau, Meinir Heulyn, y daeth iddi'r syniad o greu parti cerdd dant yng nghyrion Pontypridd a hau hadau'r hen draddodiad mewn daear a oedd i bob golwg yn ddigon diffaith. A feddyliodd Meinir erioed y basai'r syniad yn cydio cystal? Ond wedyn, pa well heuwr a allai fod wedi bwrw'r had i'r ddaear? Meistres y tannau yn dod â'i medrau proffesiynol ac elfennau gorau'r byd amatur gwerinol at ei gilydd. Roedd yr argoelion yn dda! Bu cystadlu mewn Gŵyl ac Eisteddfod a buan y cafodd y parti ifanc ei draed dano.

Wrth i yrfa Meinir fel telynores gyda'r Cwmni Opera Cenedlaethol ddatblygu, a hithau'n gorfod bod oddi cartref gryn dipyn, trodd ei golygon at un o aelodau ifanc y côr, merch a oedd wedi ymuno'n ddiweddar ac yn dysgu'r delyn yn ysgolion y cylch, ac fe'i gwahoddwyd i gymryd at yr awenau. Un o Lanerfyl oedd Alwena Roberts yn wreiddiol, o hil o gerdd-dantwyr, ac un a oedd wedi treulio cyfnod yn cyfeilio i Barti'r Ffin cyn troi tua'r de. Dan arweinyddiaeth Alwena y trodd y parti yn gôr ac wedi cyfnod o ymlafnio dan law perffeithydd digyfaddawd, dechreuwyd mwynhau ambell lwyddiant. Bu Alwena'n ein harwain am oddeutu deng mlynedd, ac yn naturiol mae gan yr aelodau lu o atgofion amdani, nid yn unig am ei hymchwil am berffeithrwydd a'i gofal am bob gair a chymal, ond hefyd am ei ffraethinebau (ac am ei chystwyo didrugaredd!). Hyd yn oed ar ôl ennill rhyw gystadleuaeth neu'i gilydd, roeddem yn ddigon tebygol o fod dan y lach y nos Iau ganlynol. 'Mi gianoch chi'n reit dde nos Sadwrn, coelio … dech chi'n ddiawchedig heno!' Fel pob cerdd-dantydd da, roedd gan Alwena gydymdeimlad greddfol â'r gair a'r gerddoriaeth, ac roedd ei gosodiadau, wrth gwrs, yn berlau - mae rhai yn dal yn rhan annatod o *repertoire* y côr dros ddeng mlynedd yn ddiweddarach.



Pan ddaeth yn amser i Alwena ddychwelyd i'r Gogledd, roedd cryn fwlch i'w lenwi, ond rhywsut, doedd fawr o waith chwilio am arweinydd newydd. Unwaith eto, syrthiodd y fantell ar un o aelodau'r côr, a'r tro yma ar ferch o Forgannwg a oedd yn byrlymu o farddoniaeth a cherddoriaeth. Ni fydd neb sydd wedi clywed rhai o delynegion iasol Menna Thomas ar Dalwrn y Beirdd yn synnu pan ddywedaf mai ei gallu i ddehongli cerdd oedd un o'i phennaf doniau. Ac ymhell cyn iddi gymryd at awenau Merched y Garth roedd wedi profi ei gallu i arwain partïon gwerin a cherdd dant Ysgol Gyfun Rhydfelen ac wedi cael llwyddiannau lu mewn Eisteddfodau a Gwyliau Cerdd Dant. Buan y datblygodd y gallu i osod cerdd dant, ac ymhen fawr o dro, roedd Menna'n cael ei chyfrif ymhlith gosodwyr ceinaf y grefft. Buan hefyd y gwelsom nad oedd ffraethineb Menna chwaith i'w gadw dan lestr. Buom yn 'Bryn Terfeleiddio' gyda'r goreuon ac yn canu'n 'Dia Marïaidd' ac … wel, allwn ni ddim ailadrodd popeth a glywyd yn ystod degawd teyrnasiad Menna yn Festri'r Tabernacl. Byddai'r saint yn troi yn y fynwent y tu allan aml i nos Iau!



**Eisteddfod Genedlaethol Castell Nedd 1994**

Ac yna, daeth Llinos. I Llinos mae'r diolch ein bod yn dal i ganu, yn dal i fwynhau. Bu'n aelod o'r côr o'r dechrau, a bu sawl côr arall hefyd yn falch o'i gwasanaeth dros y blynyddoedd. Canodd fel unawdydd ar lwyfannau clasurol a gwerinol a bu'n hyfforddi plant i ganu'r ffidl ers blynyddoedd. Daeth â chwa o awyr iach i'r ymarferion ac arlwy newydd ac amrywiol i'n herio. Taflodd ei hun i'r gwaith o arwain y côr ym mhob ystyr gyda'r brwdfrydedd a'r afiaith sy'n nodweddiadol ohoni, ac ymatebodd y côr yn llawen.

Wrth ddathlu'r cyfnod o dros ugain mlynedd o gyd-ganu, mae'n diolch yn fawr i'r pedair arweinyddes am rannu â ni eu doniau llachar. Cofiwn hefyd am nifer o rai eraill y buom yn ffodus iawn o'u gwasanaeth. Eirlys Gravelle, aelod o'r côr ar un cyfnod a gyfoethogodd ein *repertoire* a'i threfniannau medrus o alawon gwerin a chaneuon ysgafn Cymru. Telynorion hefyd - wedi cyfnod Meinir ac Alwena bu'n rhaid mynd ar ofyn nifer o wahanol delynorion a chafwyd cymwynasau parod gan lawer. Bu Eirlys Lamb yr un mor barod i gyfeilio ar y piano mewn ymarfer a chyngerdd. A diolch arbennig hefyd i Ray Phillips, ein trysorydd ac i Eleri Roberts, ein hysgrifenyddes. O'r dechrau, dibynnodd y côr yn drwm ar sgiliau trefnu'r ddwy - sawl cinio, trip, cyngerdd a chystadleuaeth a drefnwyd ganddynt dros y blynyddoedd? A hynny heb air o rwgnach ac yn gwbl ddiffwdan.

Ac yn olaf, diolch i Loreen a'i thîm am drefnu'r dathliad hwn. A phob llwyddiant i'r côr yn y milblynyddoedd nesaf!

GMR (2000)

# AR GRWYDR

Ni a'n histerics yw'r anystyriol,
Ond ni'r dihirod yw'r llais hanfodol
Ni yw'r gweddill, ond ein cân dragwyddol
Heddiw a erys. Drwy'n sgrech fyddarol,
Ni yw swn y presennol.
Ni yw'r her:
Yn dwf o hyder, ni yw'r dyfodol.
M.Mc.H.

## Yr Ŵyl Ban Geltaidd

Teithiodd y Côr ddwy waith i'r Iwerddon i'r Ŵyl Ban Geltaidd.

Yng Nghil Airne yn 1984 fe'n synnwyd ni gan drefniadau hamddenol yr Ŵyl. Doedd yna fawr neb ar wahân i'r beirniaid yn gwrando arnom yn canu yn y gystadleuaeth a gorfod inni gystadlu â rhyw fand swnllyd y tu draw i'r pared tra'n canu mewn Noson I.awen!

Ond bu'n daith hynod o ddifyr a phawb wedi cael cyfle i ymlacio'n llwyr.

Aethom eto i'r Ŵyl yn 1999, i Drá Li y tro hwn a dychwelyd yn fuddugoliaethus. Derbyniasom darian ychwanegol am Gôr Gorau'r Ŵyl a chafodd Llinos ganmoliaeth arbennig am ei chyfraniad unigryw yn yr alaw werin "Lisa Lân".

Cawsom bedwar diwrnod i'w cofio yno ac yn goron ar y cyfan cael dod yn ôl i'r gwesty yn Waterford i wylio tîm rygbi Cymru yn curo'r Saeson. Bydd yn rhaid trefnu taith arall i'r Ŵyl cyn hir!




**Trá Li yn 1999**





**Gŵyl Telynau'r Byd  1991 yn Neuadd Dewi Sant**



**Crwydro Iwerddon yn 1984**



**Gŵyl Cerdd Dant Dyffryn Lliw 1985**

# BRO'R GARTH

Bydd yma genedl pan fydd cenhedloedd
Yn anghofiedig, a'u heangfydoedd
Bydd yma nodded tra bydd mynyddoedd
Bydd eco'r glewion tra bydd creigleoedd,
A bydd iaith tra bydd ieithoedd, - a'u geiriau
Yn rhoi oeriasau i lawr yr oesoedd.

G.LL.O.

Roedd ardal y Garth wedi'i Seisnigeiddio dros y blynyddoedd ond ar ddechrau'r saithdegau daeth llygedyn o obaith i'r cylch gyda sefydlu Eisteddfod Gadeiriol Cylch Godre'r Garth. O ganlyniad i'r brwdfrydedd yn yr Eisteddfod gyntaf honno ffurfiwyd côr cymysg, Côr Godre'r Garth, i gystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol Caerfyrddin 1974.

Daeth llwyddiant Côr Godre'r Garth â rhyw hyder ac ynni newydd i fywyd diwylliannol yr ardal a buan y ffurfiwyd Côr Merched y Garth gan gychwyn ar gyfnod euraidd o ganu cerdd dant yn y fro.

Erbyn dechrau'r wythdegau ffurfiwyd Parti Dawns Nantgarw, cwmni sydd yn arloesi ym myd dawnsio gwerin yn ogystal â chadw traddodiadau gorau'r grefft.

Bu'n gyfnod o gystadlu brwd yn ystod yr wythdegau.Yn 1985 cyflwynwyd Medal Aur Clogau i Wil Morus Jones, arweinydd Côr Godre'r Garth, y côr cymysg buddugol yn Eisteddfod Genedlaethol y Rhyl. Yn 1986, yn Eisteddfod Genedlaethol Abergwaun, cyflwynwyd ail Fedal Aur Clogau i Alwena Roberts, arweinydd Côr Merched y Garth, y Côr Cerdd Dant buddugol. Ac yn 1987 cyflwynwyd Medal Aur Gwynfynydd i Eirlys Britton, Hyfforddwraig Dawnswyr Nantgarw. Wedi hynny dilëwyd y wobr gyda'r tair medal aur yn aros yn ddiogel yn ardal Godre'r Garth.

Ail-adroddwyd y llwyddiant yn 1998 pan aeth y wobr gyntaf yn y tair prif gystadleuaeth yn Eisteddfod Genedlaethol Bro Ogwr i'r Côr, y Merched a'r Dawnswyr o ardal y Garth.



**Dathlu llwyddiant Eisteddfod Bro Ogwr 1998**



**Eisteddfod Llangefni 1983**

**Dathlu a mwynhau golygfeydd yn Nhrá Li 1999.**





# MILENIWM NEWYDD





**Gwyl Ddrama Tafod Elái  Tachwedd 2000**

**Salem Tonteg Gorffennaf 2003**
Uchafbwynt rhaglen y Gymdeithas oedd mwynhau, a hynny gydag “M” fawr, noson yn gwrando ar Gôr Merched y Garth o dan arweiniad Mrs. Llinos Swain. Roedd y gwrandawyr o’r unfarn mai annhebyg y bydd yno noson mor hyfryd ymhlith ein nosweithiau Gwener. Gwerthfawrogir yn fawr barodrwydd y Côr hwn i rannu ei ddoniau dros ardal eang.  Un o’u trefniadau adeg yr Hydref fydd teithio i ganol Ceredigion i ddiddanu tyrfa yn Llwynpiod pan fydd y Capel hwn yn dathlu ei ddau canmlwyddiant.  Bu Mamgu a Dadcu Llinos, Daniel ac Elizabeth Davies, yn ffermio ym Mhencastell sef y fferm agosaf i’r Capel hwn.



**Tabernacl 2004**



**Taith i Baris**

Teithiodd Cor Merched y Garth am y tro cyntaf i Ffrainc ym mis Hydref 2001 ar wahoddiad Cymdeithas Gymraeg Paris. Trefnwyd y gyngerdd yn Theatr yr Eglwys Americanaidd drwy gysylltiadau Elenid Jones, aelod o’r côr. Llinos Swain oedd yn arwain ac Eirlys Lamb yn cyfeilio ar y piano. Cafwyd unawdau gan Sian Griffiths a Dylan Cernyw ar y Delyn. Hefyd cafwyd eitem gan driawd o’r côr - Petra Davies, Bethan Caffrey a Bethan Geraint.

Cafwyd penwythnos arbennig yn ymweld â golygfyedd godidog Paris.




## Cyngerdd y Tri Chôr

Cafwyd cyngerdd llwyddiannus iawn yng Nghapel Tabernacl nos Sul, Ebrill 25ain 2004 a daeth cynulleidfa deilwng iawn ynghyd i wrando ar y wledd gerddorol gan Gôr Godre’r Garth, Parti’r Efail a Merched y Garth. Fel y crybwyllwyd ar y noson roedd yn fraint i'r Corau fedru rhoi cyfraniad yn ôl i'r pentref.

Llinos Swain oedd hyfforddwraig Côr Merched y Garth a chyfeiliwyd ar y delyn eto gan Meinir Heulyn ac Eirlys Lamb ar y piano. Glenys Roberts fu'n cyflwyno'r eitemau ac yn egluro i'r gynulleidfa am y grefft o ganu Cerdd Dant. Nid fi yw'r gorau i ddweud sut i Gôr Merched y Garth ganu ond clywais ddweud wrth gerdded adre' drwy'r pentref fod "O nefol addfwyn Oen" wedi cael ei ganu'n nefolaidd.

Cafodd elw’r noson ei gyflwyno ar ran Eglwys y Tabernacl i Gronfa Cymorth Cristnogol, Salaam a Shalom.

# TEITHIO



Catrin Morris yn cyflwyno

**Taith Patagonia 2005**

Roedd taith y Côr i Batagonia yn llwyddiannus dros ben. Gadawodd aelodau'r côr a'u gwŷr a rhai ffrindiau am Buenos Aries ar Fawrth 25ain i ddechrau ar y daith gyffrous i'r Wladfa am bythefnos. Bu'r aelodau wrthi'n ddyfal yn dysgu ychydig o Sbaeneg o dan gyfarwyddyd Nia Rowlands bob Nos Iau cyn y daith.

Catrin Morris yw'r ddolen gyswllt rhwng y Côr a'r Wladfa a hi sydd wedi helpu trefnu'r cyngherddau. Mynd allan i Batagonia i ddysgu Cymraeg wnaeth Catrin rai blynyddoedd yn ôl. Fe'i swynwyd gan y wlad a chan un o'r trigolion yn arbennig. Syrthiodd mewn cariad â Milton. Fe briododd y ddau a bellach mae ganddynt ddwy ferch fach, Elen a Maite.

Merch Mererid, un o aelodau'r côr yw Catrin ac mi roedd hi'n awyddus ac yn falch i gael croesawu Côr Cerdd Dant ei mam i Batagonia. Gyda llaw mi ganodd Catrin, ei hun gyda'r côr yn Eisteddfod Casnewydd llynedd pan oedd adre gyda'i theulu ar wyliau. Achos tristwch mawr i aelodau'r côr ac i Catrin yn enwedig yw'r ffaith na fydd Mererid yn teithio i Batagonia gyda'r Côr oherwydd gwaeledd sydd wedi ei llethu am rai blynyddoedd bellach.

Perfformiwyd amryw o gyngherddau ar y daith a bu aelodau'r Côr yn ymuno yn y Gwasanaeth Diolchgarwch yn y Capel yn y Gaiman. Llinos Swain fu'n trefnu rhaglenni'r cyngherddau ac yn arwain y Côr. Roedd cwmni'r delynores ddawnus, Meinir Heulyn, i gyfeilio i'r côr ac i berfformio eitemau unigol yn gaffaeliad mawr i'r daith.

Rwy'n siŵr fod y merched am ddiolch i Eleri Roberts a Ray Phillips am eu gwaith trwyadl yn trefnu'r daith a gofalu am y cyllid.




Cyngerdd yn Esquel



Meinir Heulyn yn canu telyn newydd yr ysgol gerdd



Yn ardal llynnoedd yr Andes

**Iwerddon 2006**



Teithiodd aelodau Côr Merched y Garth i'r Ynys Werdd i Letterkenny i'r Ŵyl Ban Geltaidd yn ystod gwyliau'r Pasg 2006. Yn ogystal ag ennill yr ail wobr yn y gystadleuaeth i Gorau merched ar y Sadwrn bu'r merched yn canu mewn cyngerdd yn Theatr An Grianan, ac yn Noson y Cymry ar y Nos Wener. Gwelwyd yr aelodau am y tro cyntaf yn eu gwisgoedd pinc llachar!

Hwyrach mai'r wibdaith Fore Gwener oedd un o uchafbwyntiau'r daith. Roedd y tywydd yn heulog braf ac roedd y croeso a'r adloniant yn Tabhairne Leo (tafarn Leo) yn nodweddiadol o groeso'r Gwyddelod. Y dafarn oedd cartref yr enwog Clannad ac Enya. Roedd y daith o amgylch dinas Belfast cyn dychwelyd ar y Sul yn agoriad llygad i amryw, yn enwedig wrth deithio drwy ardal y Falls Road.

Mae aelodau'r côr yn ddyledus iawn i Llinos am hyfforddi ac i Ray ag Eleri am drefnu'r daith mor drwyadl.

# CYNGHERDDAU



**Eisteddfod Genedlaethol 2004**
Bu'n rhaid i Gôr Merched y Garth aros tan y Sadwrn olaf cyn cystadlu ac yma eto dim ond un Côr oedd yn ymgiprys am y wobr. Pam tybed nad yw Corau'r Gogledd yn barod i deithio i'r De? Beth bynnag mi aeth aelodau Côr Merched y Garth i hwyl ac ysbryd y darn "Y Côr Meibion" gan Gwyn Thomas gan wisgo crysau a "theis bô"! Fe blesiwyd Bethan Bryn a Catherine Watkin yn fawr gan ddatganiad y Côr a dyma wobr gyntaf arall i'r pentref!



**Cyngherddau 2005**
Mae'n gyfnod prysur yn hanes Côr Merched y Garth ar hyn o bryd. Fe ymunodd y Côr gyda disgyblion Ysgol Gyfun Bryntirion, ger Pen-y-bont ar Ogwr i ddiddanu Cymdeithas Rieni ac Athrawon yr Ysgol ar Nos Iau, Chwefror 24ain.

Daeth grwpiau o blant Ysgolion Cynradd y cylch a phlant Adran yr Urdd, Tabernacl i ymuno â Chôr Merched y Garth i godi arian at Apêl Tswnami ar Nos Iau, Mawrth 10fed yng Nghapel y Tabernacl.



**Harlech 2007**
Cafodd aelodau Côr Merched y Garth gyfle i deithio i'r Gogledd hefyd ar ddydd Sadwrn, 3 Mawrth. Roedd y Côr yn canu mewn Noson Lawen yn Theatr Ardudwy, Harlech ac yn rhannu'r llwyfan gyda'r delynores Meinir Heulyn, y grŵp Pryd Ma' Te, Ffarmwr Ffowc a disgyblion Ysgol Ardudwy.

Nos Fercher, 21 Mawrth, bu'r Côr yn diddanu Cangen Merched y Wawr, Tonysguboriau. Y nos Iau canlynol roedd y merched yn canu ar Y Lanfa yng Nghanolfan y Mileniwm cyn mynd am bryd bach o fwyd i'r Mimosa yn y Bae.

**Y Corau'n Cystadlu 2008**
Bu Parti'r Efail a Chôr Merched y Garth yn cystadlu yn yr un gystadleuaeth yn Eisteddfod y Cymoedd yn Ystrad Mynach Nos Wener, Hydref 17eg. Côr Cwm Ni o Ystrad Mynach oedd yn fuddugol, gyda Parti'r Efail yn ail a Chôr Merched y Garth yn drydydd. Roedd awyrgylch hamddenol y noson yn ein hatgoffa o 'Steddfodau bach y wlad ac roedd yn braf cael cefnogi'r brwdfrydedd sydd yng Nghwm Rhymni.

**Dweud Ffarwel wrth Llinos 2008**
Ar ôl cyfnod o ryw ddegawd yn arwain Côr Merched y Garth mae Llinos Swain wedi penderfynu cymryd hoe fach. Mae'r merched i gyd am ddiolch o galon iti Llinos am dy ymroddiad yn ystod y cyfnod yma. Rydym wedi cael hwyl ryfeddol o dan dy arweiniad. Buom yn cystadlu a chynnal cyngherddau ledled Cymru a thramor yn ystod dy deyrnasiad. Diolch o galon, Llinos. Braf yw deall dy fod am ddod yn ôl i rengoedd y sopranos i ganu nawr.

# ELUSENNAU



Canu yn Asado Gilfach Goch 2007

Bu'r Asado a drefnwyd gan Gôr Merched y Garth a Pharti'r Efail yn y Gilfach Goch yn llwyddiant ysgubol. Yng nghanol cyfnod o dywydd digon diflas cafwyd noson berffaith o haul hirfelyn tesog ac mi roedd yr oen rhost yn flasus iawn. Cafwyd adloniant gan y ddau gôr, Meinir Heulyn ac Iestyn Morris, ond sêr y noson oedd Trystan Gruffydd yn clocsio a'r parti canu o Ysgol Gerdd Porthcawl. Yn goron ar y noson codwyd £1300 i Ysgol Gymraeg Trelew.

Mae aelodau Côr Merched y Garth yn disgwyl yn eiddgar am ymweliad gan Catrin (Morris gynt) i gasglu'r siec a'i gario nôl i Batagonia. Diolch i bawb a fu'n trefnu'r noson.

**Nadolig 2008**
Bu Côr Merched y Garth yn canu yng Ngŵyl Nadolig Sain Ffagan ar Nos Iau, Rhagfyr 4ydd a hefyd yng Nghartref Dewi Sant ym Mhontyclun ar nos Lun, Rhagfyr 15fed. Croeso cynnes i Gavin Ashcroft sydd wedi cymryd yr awenau fel arweinydd y Côr. Nos Lun yw ein noson ymarfer erbyn hyn.

**Dathlu Gŵyl Dewi 2009**
Bu aelodau Merched y Garth yn dathlu Gŵyl Dewi yng Nghlwb y Bont ar nos Wener, Mawrth 13eg. Trefnodd Delyth Caffrey gwis (anodd) i ni a thîm Llinos, Ray a Gavin oedd yn fuddugol. Darparwyd lluniaeth ysgafn gan aelodau'r pwyllgor a daeth y noson i ben gyda'r Côr yn canu ychydig o gerdd dant ac alawon gwerin. Diolch i Eifiona a'r pwyllgor am drefnu'r noson.



Eisteddfod Genedlaethol 2006



Eisteddfod Genedlaethol 2008

**Cerdd Dant 2009**
Yn yr Ŵyl Gerdd Dant yng Nghasnewydd gwnaeth aelodau Côr Merched y Garth eu gorau glas yng nghystadleuaeth y Côr. Diolch i Gavin am roi gosodiad hyfryd inni, ac ar ein hyfforddi.

**Cymorth i Haiti 2010**
Bu aelodau Côr Merched y Garth yn cynnal cyngerdd ar y cyd gyda Chôr Plant Ysgol Gynradd Gymraeg Llantrisant a Chôr Ieuenctid Llantrisant i godi arian at gronfa Trychineb Haiti yn Ysgol Gynradd Gymraeg Llantrisant ar Nos Iau, Ebrill 22ain.

**Aduniad y Corau**
Mae rhyw bum mlynedd ers i aelodau Côr Merched y Garth deithio i Batagonia. Yn ddiweddar daeth cyfle i aelodau'r Côr i adnewyddu eu cyfeillgarwch â rhai o'n cydwladwyr o'r Wladfa. Gwahoddwyd Côr Merched y Garth a Chôr CF1 i gyfrannu eitem neu ddwy mewn cyngerdd a roddwyd gan Gôr Merched y Gaiman yng Nghapel Salem yng Nghaerdydd. Fe gawsom wledd o ganu a chyfle i gymdeithasu ar ddiwedd y noson a chael "social bach" fel maent yn dweud yn y Wladfa.

**Cymanfa Ganu 2010**
Yn goron ar wythnos o ddathlu yn y Tabernacl cynhaliwyd Cymanfa Ganu ar brynhawn Sul, Medi 12fed. Yr arweinydd oedd Eilir Owen-Griffiths, yr Organydd oedd D. Carey Williams ac roedd y gerddorfa o dan ofal Bethan Roberts. Cafwyd eitemau gan blant yr Ysgol Sul, Parti'r Efail, Côr Merched y Garth a Chôr Godre'r Garth. Cawsom wledd o ganu ac mae'r Gymanfa wedi ei recordio ar gyfer Caniadaeth y Cysegr.

**Nadolig 2010**
Bu aelodau Côr Merched y Garth yn cynnal eu cyngerdd Nadolig yn yr Amgueddfa, gerllaw'r hen bont ym Mhontypridd nos Lun, Rhagfyr 13eg. Daeth plant Ysgol Gymraeg Llwyncelyn i ymuno a'r Côr. Cyflwynwyd elw'r noson i gefnogi Nyrsys MacMillan.

# FFARWEL



Gavin yn arwain yn Salem, Treganna 2010

**Diolch am Wasanaeth Gavin. Medi 2011**
Mae cyfnod arall yn hanes Côr Merched y Garth wedi dod i ben. Gan fod cyn-gymaint o ddyletswyddau a chyfrifoldebau arall yn pwyso'n drwm arno mae Gavin Ashcroft wedi penderfynu rhoi'r gorau i arwain y côr. Mae'r merched am ddymuno'n dda i ti Gavin, yn dy amryfal brosiectau, gan ddiolch o galon am dy wasanaeth yn ystod dy gyfnod gyda'r Côr.

A beth am y dyfodol? Roedd aelodau'r Côr yn unfryd ein bod am barhau i ganu ac fe fydd hysbyseb am arweinydd newydd yn britho'r papurau bro lleol cyn bo hir. Yn y cyfamser mae Llinos, ein dirprwy arweinyddes ffyddlon wedi cytuno i gamu i'r bwlch unwaith yn rhagor. O fis Medi ymlaen byddwn yn mynd yn ôl i ymarfer ar nos Iau gan nad oedd nos Lun yn gyfleus i bawb.



Eisteddfod Genedlaethol 2010



Noson Dathlu llwyddiant Glenys Roberts yn ennill y Goron yn Eisteddfod Glyn Ebwy 2010

## Cyngerdd Ffarwel Merched y Garth

Teimladau cymysg iawn oedd gan aelodau Côr Merched y Garth nos Iau, Mai 24ain 2012. Dyma gyngerdd ola'r Côr, a chyfle i ganu rhai o'n ffefrynnau o ddyddiau'r arweinyddion, Alwena, Menna, Llinos a Gavin, a chael y fraint o gael sefydlydd y Côr, Meinir Heulyn, i gyfeilio ar y delyn. Jill Williams gyflwynodd y noson yn ei ffordd gartrefol arferol.

Cafwyd eitemau cerddorol graenus gan blant Ysgol Gynradd Garth Olwg ac Ysgol Gyfun Garth Olwg.

Dwy alaw werin oedd dewis Meinir Heulyn yn ei datganiad ar y delyn. Daeth y cyngerdd i ben gyda'r côr yn canu dwy gân werin a dau ddarn Cerdd Dant.

Daeth yn ddiwedd cyfnod i'r Côr. Wedi troi mas i ymarfer yn Festri'r Tabernacl am yn agos i bymtheg mlynedd ar hugain bydd yna fwlch anferth, ond bydd gyda ni ein hatgofion melys am gystadlu, am gymdeithasu, am deithiau tramor am giniawa ac am dripiau siopa.

Diolch o galon i'n harweinyddion ymroddgar i gyd, diolch i Eleri am fod yn ysgrifennydd o'r dechrau, a diolch i Eifiona am fod yn "super cadeirydd" ac am drefnu'r noson ffarwelio.

Cynhaliwyd noson gymdeithasol yng Ngwesty Parc Treftadaeth y Rhondda ar nos Wener, 6ed o Orffennaf i hel atgofion.

**Gwibdaith**
Dydd Sadwrn, y pumed o Dachwedd 2011 aeth llond bws o aelodau, cyn-aelodau a ffrindiau Merched y Garth i Gaerfaddon am ein gwibdaith flynyddol. Bu'r tywydd yn garedig a chawsom amser da yn siopa, siarad ac yfed paneidiau o goffi. Yna troi trwyn y bws nôl i gyfeiriad Caerdydd a chael ein croesawu gan awyr lliwgar a gwreichion Noson Tân Gwyllt a chael swper "bach" gyda'n gilydd yn un o fwytai'r ddinas.

Bu'r Côr yn canu yn Ffair Grefftau Garth Olwg, fore Sadwrn, Tachwedd 26ain ac yn Eglwys Llantrisant brynhawn Sul, Rhagfyr 11eg.

**Diolch**
I aelodau'r côr am eu lluniau, i Loreen Williams am roi trefn ar y hanes ac i Penri Williams am baratoi'r llyfryn hwn.